Newyddlen Hydref/Gaeaf 2011/12

Cynnwys

Tudalen 1
Y newyddion yn yr UE

Tudalen 2-3
Beth mae Europe Direct wedi bod yn ei wneud a digwyddiadau'r dyfodol

Tudalen 4-5
Gwobr Sakharov 2011

Cytundeb Schengen

Effeithiolrwydd Ynni yn Ewrop

Y Comisiwn Ewropeaidd

Tudalen 6
Rhwydwaith Menter Ewrop

Cyhoeddiadau newydd o'r UE

Y newyddion yn yr UE

Derbyniad Croatia i'r UE

Ar 3 Hydref 2005, cychwynnodd yr Aelod Wladwriaethau drafodaethau gyda Croatia am ei derbyniad i'r Undeb Ewropeaidd. Roedd y trafodaethau'n cynnwys 35 o benodau trafod yn ymdrin â'r ystod gyfan o reolau a pholisïau'r UE.
Cyn ymuno â'r UE, mae'n rhaid i wlad gael economi marchnad gweithredol yn ogystal â'r gallu i ymdopi â phwysau cystadleuol a grymoedd y farchnad o fewn yr UE. Darperir cymorth ariannol i helpu'r gwledydd sy'n ymgeisio i gyflwyno'r diwygiadau gwleidyddol, economaidd a sefydliadol angenrheidiol. Mae'r diwygiadau angenrheidiol ar gyfer ymaelodi â'r UE yn ceisio gwella bywydau dinasyddion yn y gwledydd sy'n ymgeisio hefyd, gan gryfhau rheolaeth cyfraith, hawliau dynol, diogelwch y lleiafrifoedd a datblygiad cymdeithas sifil.

O'r diwedd, ar Fehefin 30ain 2011, ar ôl chwe blynedd o drafod, caewyd y trafodaethau am dderbyniad Croatia. Disgwylir i'r Cytundeb Derbyniad gael ei lofnodi erbyn diwedd y flwyddyn ac yn dilyn y drefn gadarnhau ymhob Aelod Wladwriaeth a Croatia, rhagwelir y bydd y derbyniad ar 1af Gorffennaf 2013.

Beth sydd ar y Plât?

Mae deddfwriaeth bwyd ar fwydlen y Senedd Ewropeaidd. Mae aelodau'r Senedd Ewropeaidd wedi pleidleisio ar gynigion ynglŷn ag Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig a labelu bwyd, ac maent yn mynd i bleidleisio ar ansawdd bwyd. Y prif syniad yw rhoi mwy o wybodaeth, dewis a safon i brynwyr. Eu lle hwy fydd dewis beth maent yn ei fwyta – ond bydd penderfyniadau'r Senedd yn caniatáu iddynt wneud penderfyniad mwy deallus.

- Ym mis Gorffennaf, cymeradwywyd cynnig i ganiatáu i wledydd yr UE wahardd neu gyfyngu ar dyfu Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig (ar sail amgylcheddol). Ni fydd y gyfraith newydd yn newid y drefn awdurdodi gyfredol gan y Comisiwn Ewropeaidd, sydd wedi'i seilio ar bryderon am iechyd.
- Hefyd ym mis Gorffennaf, cytunodd y sesiwn llawn y dylai labeli bwyd fod yn fwy syml, yn fwy eglur (heb brint mân) a rhoi gwybodaeth nid yn unig am gynhwysion ond hefyd am bethau megis traws frasterau neu alergenau a allai achosi risg i iechyd
- Cyflwynwyd rheolau newydd am ansawdd bwyd i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth ym mis Ebrill gan gynnig system ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol, dynodiad daearyddol a chanllawiau. Bydd yn cyflwyno labelu gorfodol am leoliad y ffermio a bydd yn haws hyrwyddo bwyd traddodiadol.
- Wedi i'r drefn gymodi ar fwydydd newydd fethu, galwodd aelodau'r Senedd Ewropeaidd ar y Comisiwn Ewropeaidd i baratoi cynnig newydd cyn gynted ag y bo modd. Ni allai'r Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor gytuno ar fwyd wedi clonio – roedd y Senedd Ewropeaidd eisiau gwahardd cynhyrchu bwyd o anifeiliaid wedi clonio a'u hepil, ac roedd y Cyngor yn cefnogi gwaharddiad ar fwyd 'y genhedlaeth gyntaf' yn unig.

Galw diweddaraf yr UE am gynigion ymchwil

Mae oddeutu €7bn ar gael ar gyfer y rownd ddiweddaraf o grantiau, rhan o'r €53bn sydd ar gael drwy'r rhaglen ariannu gwaith ymchwil gyfredol ar gyfer 2007 hyd 2013.

Gall timau ymchwil o'r UE a thu hwnt wneud cais am yr arian sy'n helpu Ewrop i ddatblygu gwaith ymchwil o'r radd flaenaf a chau'r bwlch arloesi rhwng yr UE a'i brif gystadleuwyr, yr Unol Daleithiau a Japan.

I ddatblygu gwyddoniaeth ac arloesedd, mae'r UE eisiau cynyddu'r gwariant ar waith ymchwil i 3% o'r cynnyrch domestig gros erbyn 2020 (o 2% yn 2009). Gallai cyrraedd y targed hwnnw greu 3.7 miliwn o swyddi a rhoi hwb i dyfiant blynyddol o oddeutu €800bn.

Beth mae Ewrop Uniongyrchol Wrecsam wedi bod yn ei wneud?

Ffair Swyddi Llinell Fusnes

Gyda chefnogaeth Europe Direct Wrecsam, aeth Llinell Fusnes, sydd wedi'i seilio yn Llyfrgell Wrecsam, ati i drefnu ffair swyddi. Am fod y farchnad waith yn edrych yn ddigon llwm ar hyn o bryd ac y mae'r gyfradd gyflogaeth ar draws Ewrop ar ei waethaf, mae'n bwysig rhoi gwybod i bobl am y cyfleoedd sydd ar gael i'r di-waith gael hyfforddiant a derbyn cefnogaeth. Gwahoddwyd busnesau a sefydliadau lleol sy'n cynnig cyfleoedd i hyfforddi a chanfod swydd i ddod i ffair yn para diwrnod cyfan oedd yn agored i bobl leol.

Cynhaliwyd gweithdai ar bynciau megis 'Sgiliau cyfweliad', 'Creu CV' a 'Sut i'ch marchnata eich hun i gyflogwr' yn ystod y diwrnod yn rhad ac am ddim.

Gwirfoddolwn!

Trefnodd Europe Direct Wrecsam ac Ewrop Uniongyrchol Llangollen ffair wirfoddoli ym mis Mai ar thema'r Flwyddyn Wirfoddol Ewropeaidd i annog pobl i wirfoddoli yn eu hamser sbâr. Roedd hefyd yn dathlu'r bobl oedd yn neilltuo amser i wirfoddoli'n barod.

Cynhaliwyd y digwyddiad ym Mhrifysgol Glyndŵr a'i gynnig i fwy nag 20 o wahanol gyrff gwirfoddoli o bob rhan o Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Trwy gydol y diwrnod cafwyd llif gyson o bobl a llwyddodd rhai sefydliadau gofrestru gwirfoddolwyr newydd.

Diwrnod Ewrop 2011 – Dyfodol cynaliadwy i bawb!

Unwaith eto, trefnodd Europe Direct Wrecsam ddigwyddiad blynyddol yn cynnwys plant o ysgolion lleol i gymryd rhan yn Niwrnod Ewrop eleni. Y thema ar gyfer digwyddiad eleni oedd Cynaliadwyedd ac roedd y ganolfan, gan weithio mewn partneriaeth â Techniquest Glyndŵr, yn darparu gweithdai yn ogystal â bod yn lleoliad perffaith ar gyfer thema o'r fath. Cychwynnwyd sesiynau'r bore a'r prynhawn gyda 'Sioe Cynaliadwyedd' wedi'i chynnal gan Rob Wix o SCIntilate. Roedd y gweithdy'n esbonio pa mor bell mae bwyd yn teithio i gyrraedd ein harchfarchnadoedd, sut maent yn cronni milltiroedd bwyd a sut rydym yn creu

ôl-troed carbon mawr a'r ffactorau negyddol sy'n berthnasol i hwnnw. Yna cafodd y plant eu rhannu ar gyfer dau weithdy. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag adeiladu modelau reidiau'r ffair gan ddefnyddio ynni solar wedi'i gynnal gan Techniquest Glyndŵr, a'r ail wedi'i gynnal gan Caroline Pollitt, Swyddog Addysg yr Amgylchedd i CBSW, a oedd hefyd yn edrych ar fyw'n gynaliadwy gan ddefnyddio gwe gynaliadwy ryngweithiol i esbonio'r pwnc.

Eisteddfod Ryngwladol Llangollen

Mae'r Eisteddfod Rhyngwladol yn ŵyl flynyddol a gynhelir yn Llangollen bob mis Gorffennaf. Bob blwyddyn mae oddeutu 4,000 o bobl o bob rhan o'r byd yn dod i ganu a dawnsio. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Ryngwladol gyntaf yn 1947 ac ers hynny mae wedi dod yn un o wyliau cerddorol gorau'r byd.

Mae canolfannau Europe Direct o Wrecsam a Llangollen, mewn partneriaeth â Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghaerdydd, yn mynychu bob blwyddyn i rannu gwybodaeth Ewropeaidd yn rhad ac am ddim. Yn ogystal â'r wybodaeth rad ac am ddim, roedd gan y stondin adran ryngweithiol i blant lle gallent gynllunio baneri Ewropeaidd ac ateb cwisiau i ennill gwobrau. Roedd yr wythnos gyfan yn llwyddiant mawr, a daeth llawer o bobl i mewn i'r babell oedd â diddordeb yn yr wybodaeth oedd ar gael, a daeth plant i chwilio am ddefnyddiau ar gyfer astudio Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd yn yr ysgol.

Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseph – Diwrnod Rhyngwladol

Cynhaliodd Europe Direct Wrecsam ddiwrnod llawn o weithdai ar bwnc Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd. Bu Blwyddyn 7, 8 a 9 yn cymryd rhan mewn gweithdai rhyngweithiol yn cynnwys cwis gyda gwobrau, addurno bag cotwm ar y thema Ewrop a chynllunio dinesydd yr UE.

Diwrnod 'Ni yw'r Byd' Rhosnesni

Cynhaliodd Europe Direct Wrecsam nifer o weithdai yn y digwyddiad ysgol blynyddol yma. Roedd y gweithdai'n cynnwys gemau map, cwisiau a gweithgareddau rhyngweithiol megis cynllunio eich Dinesydd Ewropeaidd eich hun i annog plant i ddysgu mwy am yr UE. Bu'r plant hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o weithdai eraill gan gynnwys Salsa, Drymio Affricanaidd, origami Japaneaidd a hebogyddiaeth.

Ffair Wirfoddoli AVOW

Aeth Europe Direct Wrecsam i ffair wirfoddoli a drefnwyd gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW). Daeth nifer o sefydliadau amrywiol i'r ffair i recriwtio pobl leol i'w sefydliadau.

Roedd y digwyddiad yma'n annog pobl i wirfoddoli ac roedd Europe Direct wrth law i ddosbarthu gwybodaeth am fudiadau sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli ledled Ewrop i bob oedran.

Sioe Amaethyddol Dinbych a Fflint 2011

Aeth Europe Direct Wrecsam a Llangollen i Sioe Amaethyddol flynyddol Dinbych a Fflint. Roedd yn gyfle gwych i ddosbarthu gwybodaeth Ewropeaidd rhad ac am ddim, yn arbennig wybodaeth am y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Gŵyl y Golau Gwyrdd

Cynhaliwyd y digwyddiad yma ar Sgwâr y Frenhines, Wrecsam, a daeth ysgolion a chlybiau ieuenctid ledled Wrecsam at ei gilydd gyda'u perfformiadau dawns, drama, cerdd a chân, oll ar thema amgylcheddol. Ochr yn ochr â'r perfformiadau byw roedd hefyd farchnadle amgylcheddol, lle'r oedd grwpiau a sefydliadau lleol yn arddangos y gwaith a wnânt i hybu addysg amgylcheddol. Aeth Europe Direct Wrecsam i'r ŵyl gyda bwrdd gwybodaeth i ddosbarthu cyhoeddiadau Ewropeaidd am yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Yn rhan o'r digwyddiad yma a barhaodd am fis, ymwelodd canolfan Europe Direct â nifer o ysgolion cynradd i gynnal gweithdai ar Ewrop, yr Undeb Ewropeaidd a Newid yn yr Hinsawdd.

Cynhaliwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â Raciborz, Gwlad Pwyl, y Cyngor Prydeinig a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Digwyddiadau'r dyfodol

Wythnos Mentrau Bach a Chanolig Ewrop 2011

3ydd-7fed Hydref

Eleni, bydd Llinell Fusnes, mewn cydweithrediad ag Europe Direct Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yn cydlynu rhaglen o ddigwyddiadau rhwng 3ydd a 7fed Hydref i ddathlu Wythnos Mentrau Bach a Chanolig Ewrop – ymgyrch sy'n hybu menter ar draws Ewrop.

Y llynedd, cynhaliwyd 1,500 o ddigwyddiadau ledled Ewrop gyda'r nod sylfaenol o alluogi busnesau cyfredol i rannu eu profiad a'u datblygu eu hunain ymhellach. Mae'r holl seminarau, gweithdai a chyflwyniadau'n agored i fusnesau, unigolion sy'n gobeithio cychwyn eu mentrau eu hunain ynghyd â myfyrwyr sydd â diddordeb mewn busnes.

Ar hyn o bryd rydym yn y broses o drefnu'n derfynol gyfres o ddigwyddiadau ar gyfer wythnos gyntaf mis Hydref, a fydd yn cynnwys cyfleoedd rhwydweithio busnes, cipolwg / diweddariad ar gefnogaeth busnes, digwyddiad sydd wedi'i fwriadu i ddathlu llwyddiant a chyflwyno busnesau newydd, gyda'r brif sgwrs gan siaradwr adnabyddus sydd â chefndir yn gweithio i gwmni penigamp.

Os hoffech fynychu neu gymryd rhan, mae croeso i chi gysylltu ag Europe Direct Wrecsam ar 01978 292090, europedirect@wrexham.gov.uk neu Llinell Fusnes ar 01978 292092 neu'r ebost businessline@wrexham.gov.uk.

Diwrnod Ieithoedd Ewrop 2011

Bydd Diwrnod Ieithoedd Ewrop eleni yn y Neuadd Goffa, Wrecsam, ac unwaith eto bydd yn cynnig amrywiaeth o weithdai a chynorthwywyr i ddarparu diwrnod o weithgareddau i blant o ysgolion lleol.

Bydd sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn yn cychwyn gyda gweithdy rhyngweithiol mewn Ffrangeg gan Gwmni Theatr, 'Whisper and Shout'. Yna caiff y plant eu rhannu'n grwpiau niferus i fwynhau gweithdai gyda chynorthwywyr eraill megis y Storïwr Fiona Collins, CILT Cymru, ac Adroddwyr Straeon y Pentref, Fred a Diana.

Mae'n argoeliy bydd y diwrnod yn llwyddiant mawr ac mae wedi llenwi'n barod. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am y digwyddiad mae croeso i chi gysylltu ag Europe Direct Wrecsam ar 01978 292090, ebostio europedirect@wrexham.gov.uk neu dewch i'n gweld yn Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu LL11 1AU.

Gwobr Sakharov am Ryddid Meddwl 2011

Yn Ewrop a'r byd ehangach, mae'r Senedd Ewropeaidd yn hyrwyddo parch at ddemocratiaeth, rhyddid ac iawnderau dynol sylfaenol. Mae Pwyllgor y Senedd ar Faterion Tramor, gyda'i Is-bwyllgorau ar Iawnderau Dynol, yn ymdrin yn uniongyrchol â diogelu iawnderau dynol y tu allan i'r Undeb.

Pwrpas **Gwobr Sakharov** yw anrhydeddu unigolion eithriadol sy'n brwydro yn erbyn anoddefiad, ffanatigiaeth a gormes. Yn debyg i Andrei Sakharov ei hun, mae pawb sydd wedi ennill y wobr wedi dangos faint o ddewrder mae'n ei gymryd i amddiffyn iawnderau dynol a rhyddid mynegiant.

Erbyn amser ei farwolaeth yng ngaeaf Moscow 20 mlynedd yn ôl, roedd Andrei Sakharov wedi datblygu enw da yn rhyngwladol fel ffisegwr niwclear, actifydd dros iawnderau dynol ac enillydd Gwobr Heddwch Nobel. Am ei fod yn pryderu am oblygiadau ei waith, galwodd am i bobl gydfyw yn heddychlon ac yn ddiweddarach am iawnderau dynol yn yr USSR. O ganlyniad i hynny sefydlodd y Senedd Ewropeaidd wobr iawnderau dynol er anrhydedd iddo. Yn ei draethawd ar heddwch yn 1968 ysgrifennodd bod "rhyddid deallusol yn hanfodol i gymdeithas ddynol".

Mae amseriad y wobr (sydd fel arfer wedi'i gyflwyno'n ffurfiol yn Sesiwn Seneddol mis Rhagfyr) yn cyfateb â phen-blwydd Datganiad Byd-eang Iawnderau Dynol y Cenhedloedd Unedig a lofnodwyd ar 10 Rhagfyr yn 1948. Mae'r wobr wedi'i henwi ar ôl y gwyddonydd Sofietaidd Andrei Sakharov a gafodd ei alltudio'n fewnol yn yr Undeb Sofietaidd am wrthwynebu rhaglen niwclear USSR a'i bolisïau gormesol. Yn ddiweddarach, cafodd ei ethol yn aelod o Senedd rydd Rwsia wedi i'r Undeb Sofietaidd gwympo.

Bob blwyddyn rhoddir Gwobr Sakharov i ungolion neu fudiadau rhyngwladol sydd – fel Sakharov – wedi dod yn amlwg yn yr ymdrech am iawnderau dynol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.europarl.europa.eu.

Cytundeb Schengen

Beth yw Cytundeb Schengen?

Mae Cytundeb Schengen yn caniatáu i bobl symud yn rhydd rhwng gwledydd heb reolaeth ar y ffiniau ac heb fod angen fisa. Llofnodwyd y cytundeb yn gyntaf yn 1985 gan Ffrainc, Gwlad Belg, Yr Almaen, Lwcsembwrg a'r Iseldiroedd. Cychwynnodd diddymiad y rheolaethau ar y ffiniau ar Fawrth 26ain, 1995 pan lofnododd Portiwgal a Sbaen y cytundeb a dileu'r gwiriadau ar eu ffiniau mewnol.
Ar hyn o bryd, mae 22 o Aelod Wladwriaethau'r UE wedi llofnodi Cytundeb Schengen ac mae Bwlgaria a Romania yn y broses o ymuno. Mae Norwy, Gwlad yr Iâ a'r Swistir, nad ydynt yn Aelod Wladwriaethau o'r UE, wedi llofnodi'r cytundeb hefyd ac wedi dileu eu rheolaeth ar y ffiniau. Fodd bynnag, mae'r DU, Iwerddon a Chyprus wedi penderfynu peidio cyfranogi yn y cytundeb ac mae rheolaeth ar y ffiniau'n dal i fodoli yma.

Beth mae Cytundeb Schengen yn ei olygu i ddinasyddion yr UE?

Mae'n golygu:

- Dim ciwio mewn meysydd awyr, ar y ffiniau morol neu ffiniau ar y tir
- Dim mwy o wiriadau rheoli pasbort
- Bod y rhwydwaith rheoli, er enghraifft bythod i gardiau ar y ffiniau a rhwystrau eraill, wedi'u dileu
- Y bydd dinasyddion yr UE yn derbyn fisa Schengen sy'n caniatáu iddynt symud yn rhydd drwy diriogaeth Schengen yn ystod y cyfnod y mae'n ddilys, sef 90 diwrnod.

.Ewrop Ynni-Effeithiol

Mae ymdrin â newid yn yr hinsawdd yn sialens ac mae wedi bod yn sialens am flynyddoedd lawer. Mae nod yr UE ar gyfer ymdrin â newid yn yr hinsawdd yn canolbwyntio ar dri tharged sydd i gael eu cyflawni erbyn 2020, sef:

- Gostwng allyriadau tŷ gwydr o 20%
- Tynnu 20% o ynni o ffynonellau adnewyddadwy
- Gostwng yr ynni a ddefnyddir o 20%

Mae'r UE yn llwyddo i gadw at ei amserlen ar gyfer cwrdd â'r targedau allyriadau a defnyddiau adnewyddadwy, ond mae ar ei hôl hi o ran gostwng ei ddefnydd o ynni. Os na wneir unrhyw beth, ni fydd yr UE yn cyflawni mwy na hanner y gostyngiadau y mae eu hangen er mwyn cwrdd â'u targed.

Fodd bynnag, mae gan yr UE fesurau newydd i'w rhoi ar waith yn awr a fyddai'n rhoi hwb i arbedion ynni ac yn helpu'r UE i gyflawni eu targed o ostyngiad o 20% erbyn 2020.

Cynigion yr UE

Mae'r cynigion yn cynnwys gofyniad i bob gwlad sefydlu cynlluniau arbed ynni. Byddai angen i gyflenwyr ynni annog eu cwsmeriaid i ddod yn fwy ynni-effeithlon ac felly ostwng eu gwerthiannau o 1.5% yn flynyddol. Er enghraifft, gallent helpu perchnogion cartrefi i wella effeithlonrwydd eu systemau gwresogi, gosod gwydr dwbl ac inswleiddio atigau a thoeau.

Mae'r UE yn awgrymu y gallai'r llywodraethau gynnig ffyrdd amgen o gyflawni yr un canlyniadau, megis rhaglenni cyllido neu gytundebau gwirfoddol gyda chyflenwyr. Dylai'r llywodraethau hefyd ostwng eu defnydd o ynni drwy adnewyddu o leiaf 3% o adeiladau cyhoeddus bob blwyddyn a gwneud effeithiolrwydd ynni'n amod ar bob nwydd a gwasanaeth maent yn eu prynu. Hefyd, byddai'n rhaid i lywodraethau fonitro effeithiolrwydd ffatrïoedd ynni newydd a hybu adferiad gwres gwastraff.
Bydd defnyddwyr yn derbyn gwybodaeth am eu defnydd o ynni yn rhwyddach ac am ddim, gan olygu y gallent reoli eu defnydd yn well.

Cynnig arall fyddai gofyniad i reolwyr ynni cenedlaethol gymryd effeithiolrwydd ynni i ystyriaeth, yn arbennig wrth gymeradwyo costau rhwydwaith a byddai'n rhaid i gwmnïau mawr gael archwiliadau i ganfod ffyrdd o ostwng eu defnydd.
Mae'n rhaid i lywodraethau'r UE gymeradwyo'r mesurau a fydd yn helpu i droi Ewrop yn economi carbon isel ond cystadleuol. Yn 2014, bydd y Comisiwn yn asesu a yw'r UE yn ôl ar y llwybr cywir i gwrdd â'r targed gostwng ynni o 20%. Os oes rhaid, bydd cynnig newydd yn cael ei wneud, gan osod targedau cenedlaethol gorfodol.

Y Comisiwn Ewropeaidd

Beth yw'r Comisiwn Ewropeaidd?

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn sefydliad a grëwyd yn yr 1950au o dan Gytundebau sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn wedi'i seilio ym Mrwsel ac mae'n cynnwys 27 o aelodau, 1 o bob aelod wladwriaeth, sy'n cyfarfod unwaith yr wythnos.

Beth mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei wneud?

Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd nifer o swyddogaethau:

Cynnig deddfwriaeth newydd sy'n gorfod amcannu at ddiogelu buddiannau'r UE a'i ddinasyddion yn gyffredinol ac nid rhai gwledydd penodol.

Cynrychioli a chynnal yr UE ar y llwyfan rhyngwladol. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn siaradwr pwysig dros yr UE yn ystod fforymau a thrafodaethau rhyngwladol, er enghraifft yn ystod y trafodaethau am y Cytundeb Rhyngwladol ar Newid yn yr Hinsawdd a Phrotocol Kyoto.

Gorfodi deddfau Ewropeaidd newydd. Mae'r Comisiwn yn gweithredu fel "gwarchodwr y Cytundebau". Mae'n gweithio gyda'r Llys Cyfiawnder ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod cyfraith yr UE wedi'i gweithredu'n gywir ymhob aelod wladwriaeth.

Gweithredu penderfyniadau'r Senedd a'r Cyngor trwy reoli busnes dyddiol yr UE a rhedeg ei raglenni a'i bolisïau. Mae hefyd yn goruchwylio arian yr UE ac yn amcannu at sicrhau rheolaeth ariannol da.

Rhwydwaith Menter Ewrop

Cenhadaeth Rhwydwaith Menter Ewrop yw helpu cwmnïau bychain i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd busnes yn yr Undeb Ewropeaidd.

Ddim yn gwybod ble i gychwyn wrth chwilio am bartneriaid rhyngwladol? Heb yr adnoddau i wneud cais am arian UE? Heb syniad pwy allai ariannu eich busnes? Mae Rhwydwaith Menter Ewrop (EEN) yma i'ch helpu. Maent yn sicrhau bod eich cwmni'n elwa o Farchnad Sengl yr UE gymaint ag y gwna'r chwaraewyr mawr.
Gall eu harbenigwyr eich helpu i ganfod partneriaid busnes rhyngwladol, canfod technolegau newydd a derbyn arian neu gyllid yr UE. A gallant eich cynghori am faterion mor amrywiol ag eiddo deallus, mynd yn rhyngwladol neu safonau a chyfraith yr UE.

Siop un alwad ar gyfer eich holl anghenion busnes
Mae Rhwydwaith Menter Ewrop yn dod â mudiadau cefnogi busnes at ei gilydd o 49 o wledydd. Maent wedi'u cysylltu drwy gronfeydd data pwerus ac yn adnabod Ewrop yn fanwl iawn. Yn fwy na hynny, maent wedi bod yn cydweithio ers blynyddoedd, rhai am ddegawdau hyd yn oed. Gyda mwy na 580 o aelod fudiadau mae Rhwydwaith Menter Ewrop bob amser yn agos at y fan lle mae eich busnes wedi'i seilio.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i -www.enterprise-europe-network.ec.europa.eu

Swyddfeydd yng Nghymru-

Eirian Harrison
Swyddog Gwybodaeth
Rhwydwaith Menter Ewrop Cymru
Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth
Neuadd y Sir Yr Wyddgrug
CH7 6NW
Ffôn. 01352 704748
Ebost: eirian_harrison@flintshire.gov.uk

WEIC Cyf
30-36 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF10 0DE
Ffôn. 02920 229525
Ebost: tidynp@cardiff.ac.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3AH
Ffôn. 02920 828858
Ebost: Sandra.lopes@wales.gsi.gov.uk

Cyhoeddiadau newydd o'r UE

Ewrop mewn 12 gwers

Mae'r cyhoeddiad rhad ac am ddim yma'n esbonio beth yw'r Undeb Ewropeaidd, yr hyn mae'n ei wneud yn ogystal â hanes yr UE o'r cychwyn. Mae copïau rhad ac am ddim ar gael o Europe Direct Wrecsam sydd wedi'i leoli yn Llyfrgell Wrecsam.

Llyfrau straeon am yr amgylchedd i Blant

Mae'r llyfrau straeon yma i blant yn dilyn anturiaethau bachgen ifanc o'r enw Tom a'i gyfaill, llwynog o'r enw Lila, lle maent yn dysgu am yr amgylchedd a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd a sut i'w atal. Y ddau lyfr yma yw rhifynnau diweddaraf y stori. Mae copïau rhad ac am ddim ar gael yn Europe Direct Wrecsam sydd wedi'i leoli yn Llyfrgell Wrecsam.

Nofelau Graffig am yr UE

Mae'r nofelau graffig yma'n llawn o straeon ynglŷn â sut y cafodd tri-golion yr UE eu helpu gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae un o'r straeon wedi'i gosod yng Nghaerdydd. Mae'r rhain hefyd ar gael o ganolfan Europe Direct sydd wedi'i leoli yn Llyfrgell Wrecsam.

Cyhoeddir y daflen newyddion hon gan:
Europe Direct
Llyfrgell Wrecsam
Ffordd Rhosddu
Wrecsam, LL11 1AU
Ffôn: 01978 292090
Ffacs: 01978 292611